

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
(Lle rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg,
Eastside Dental**

9 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	7
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	9
	Ansawdd yr Amgylchedd	11
6.	Y Camau Nesaf	13

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Eastside Dental, Beacon Centre for Health, Heol Langdon, Abertawe, SA1 8QY, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 9 Mawrth 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹ Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Eastside Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Abertawe. Mae'r practis yn ffurfio rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, un therapydd, deg nyrs, staff y dderbynfa (gan gynnwys rheolwr gofal cwsmeriaid) a rheolwr y practis. Ar adeg ein harolygiad, roedd hefyd ddau weithiwr deintyddol sylfaenol dan hyfforddiant² a oedd yn gweithio yn y practis. Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

Mae Eastside Dental yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. O ystyried hyn, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

² Rhan gyntaf o barhau ag addysg ôl-radd yw Hyfforddiant Deintyddol Sylfaenol.

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Eastside Dental yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau inni eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gan y practis system ar waith i gasglu barn y cleifion yn rheolaidd.

Gwelsom fod darpariaeth y cyfleusterau yn y practis o safon uchel iawn. Gwelsom arferion hynod o ran y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer dadheintio offer deintyddol. Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn gynhwysfawr ac roeddent wedi cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd gan y practis reolwr profiadol a oedd yn gweithio'n agos gyda'r prif ddeintydd ac aelodau eraill o dîm y practis. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith â'r bwriad o sicrhau diogelwch y cleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddogaethau, a bod y tîm yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd.

Roeddem o'r farn bod amgylchedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod wedi'i ddodrefnu a'i addurno i safon uchel iawn.

Roedd yn hawdd mynd i mewn i'r practis ac roedd y mannau aros yn gyfforddus ar gyfer y cleifion sy'n aros cael eu gweld gan y deintydd neu'r therapydd.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau inni eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gan y practis system ar waith i gasglu barn y cleifion yn rheolaidd.

Gwnaethom wahodd y cleifion a oedd yn mynychu'r practis ar ddiwrnod yr arolygiad i gwblhau holiaduron AGIC. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o wyth holiadur wedi'u cwblhau.

Roedd yr holl gleifion a roddodd sylwadau wedi dweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y practis. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod wedi cael eu croesawu gan dîm y practis, a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

'Rydw i'n derbyn croeso cynnes.'

'...wastad yn eitha' manwl [gwybodaeth am y driniaeth].'

'Cyfeillgar iawn ac [effeithlon].'

Dywedodd y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oediad sylweddol wrth aros i gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Disgrifiodd staff y dderbynfa broses a oedd ar waith ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd neu eu therapydd yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gwnaethom ganfod bod y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Dywedwyd wrthym y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i'r cleifion a oedd angen triniaeth frys gael eu gweld gan ddeintydd arall, pe bai eu deintydd yn absennol yn annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Roedd hyn yn golygu y gallai'r bobl fod yn hyderus, pe baent yn teimlo poen, bod system ar waith i sicrhau eu bod yn cael apwyntiad yn fuan.

Gwelsom fod y practis wedi casglu barn y cleifion yn rheolaidd trwy arolwg boddhad cleifion. Roedd hyn yn golygu bod cyfleoedd gan y cleifion wneud sylwadau am y gwasanaeth a ddarperir gan y practis.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Gwelsom fod darpariaeth y cyfleusterau yn y practis o safon uchel iawn. Gwelsom arferion hynod o ran y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer dadheintio offerynnau deintyddol. Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn gynhwysfawr ac roeddent wedi cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio'r offer radiograffeg yn ddiogel. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Roedd tystysgrifau ar gael o ran gwiriadau cynnal a chadw offer pelydr-X, ac roeddem yn gallu gweld cofnodion hyfforddi'r staff a oedd yn gyfredol. Roedd ansawdd y pelydrau-X hefyd yn destun archwiliadau rheolaidd fel rhan o'r broses sicrwydd ansawdd.

Gwelsom fod gan y practis offer a chyffuriau brys i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (cwmpiad). Gwelsom hefyd dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant am sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i berfformio adfywiad cardio-pwlmonaidd. Roedd offer a chyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod system ar waith i nodi cyffuriau a oedd wedi mynd heibio'r dyddiad dod i ben ac i brynu rhai newydd, a hefyd i wirio'r offer brys. Cadarnhawyd hyn trwy ein harsylwadau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng claf.

Roedd dogfennaeth gontract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel tra ei fod yn aros i gael ei gasglu gan y contractwr gwastraff. Gwelsom fod gweithdrefnau ysgrifenedig ac offer ar waith i ymdrin ag achosion o ollwng mercwri'n ddiogel.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offer a ddefnyddir yn y practis.

Roedd gan y practis fan dadheintio ar wahân, a oedd yn cynnwys dwy ystafell ar wahân. Mae'r polisïau a'r canllawiau ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05³ yn disgrifio'r trefniad hwn fel yr opsiwn gorau, gan ei fod yn sicrhau bod mwy o le

³Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar y broses o ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

i wahanu'r offerynnau brwnt a'r offerynnau glân neu offerynnau wedi'u sterileiddio. Gwnaethom ystyried bod y trefniadau sydd ar waith yn enghraifft o arfer dda iawn.

Roedd proses briodol ar waith ar gyfer cludo, glanhau, sterileiddio a storio offerynnau. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan gofnodion a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau offer dyddiol wedi cael eu cynnal. Gwelsom fod yr offer sy'n cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau mewn cyflwr da. Roedd gan y practis olchwr – diheintydd, eto y mae'r Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn ei ddisgrifio fel yr opsiwngorau ar gyfer glanhau offer deintyddol.

Gwelsom fod offer yn cael eu selio'n briodol mewn cynwysyddion (i'w hatal rhag cael eu heintio), a bod stamp yn cael ei roi arnynt, gan nodi'r dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben, cyn cael eu storio.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal yn unol â pholisïau a chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn caniatáu i'r tîm deintyddol hunan-asesu eu harferion yn erbyn y polisïau a datblygu cynllun gwella fel rhan o'r broses angenrheidiol o wella'n barhaus.

Roedd cyfleusterau golchi dwylo a digon o offer diogelu untro ar gael i leihau'r perygl o groes-heintio.

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol y deintyddfeydd yn y practis. Gwelsom fod y rhain o safon uchel a'u bod yn cynnwys yr offer perthnasol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau diogelwch offer wedi cael eu cwblhau. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion sy'n derbyn triniaeth.

Roedd y practis yn defnyddio system cofnodion cleifion electronig. Roedd y sampl o gofnodion y gwnaethom eu hystyried yn fanwl ac yn dangos bod y gofal wedi cael ei gynllunio a'i gyflenwi mewn modd sy'n sicrhau diogelwch y cleifion.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis reolwr profiadol a oedd yn gweithio'n agos gyda'r prif ddeintydd ac aelodau eraill o dîm y practis. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith â'r bwriad o sicrhau diogelwch y cleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddogaethau, a bod y tîm yn cyfathrebu 'n dda gyda'i gilydd.

Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd yn gweithio'n agos gyda'r prif ddeintydd ac aelodau eraill o dîm y practis.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a bod ystod o bolisïau a gweithdrefnau clinigol ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel i'r cleifion. Roedd y polisïau'n cynnwys polisïau diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, ac roeddent yn nodi manylion cyswllt asiantaethau lleol. Roedd hyn yn golygu bod tîm y practis yn gallu holi am gyngor o ran materion diogelu cleifion gan dimau diogelu lleol.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yswiriant indemniad ar waith. Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarparu gwasanaeth deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru'n gyfredol ac yn cael eu harddangos fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Ar adeg ein harolygiad, gwnaethom nodi nad oedd un deintydd yn meddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a oedd yn nodi dyddiad cyflwyno a oedd o fewn y tair blynedd ddiwethaf. Mae hyn yn ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y practis, a gytunodd i sicrhau bod gwiriad y GDG newydd yn cael ei gyflwyno er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y staff wedi derbyn brechiadau sy'n eu hamddiffyn rhag y feirws *Hepatitis B*, ac roedd y sampl o gofnodion staff a welsom yn cefnogi hyn. Roedd gan y practis weithdrefn ar waith pe bai'r staff yn destun anafiad brechiad (nodwydd). Roedd staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi. Gwnaethant gadarnhau bod cyfarfodydd bore dyddiol yn cael eu cynnal fel modd o rannu gwybodaeth ymhlith y tîm. Roedd y sylwadau gan y staff yn dangos eu bod o'r farn bod y cyfarfodydd hyn yn ddefnyddiol.

Dywedodd y staff wrthym hefyd fod hyfforddiant perthnasol ar gael iddynt. Roeddem yn gallu gweld tystiolaeth a oedd yn dangos eu bod wedi mynychu hyfforddiant. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn cael eu cefnogi i gwrdd â gofynion datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn iddynt feddu ar sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Dywedodd rheolwr y practis fod trefniadau cyfarfodydd rheolaidd hefyd ar waith, er mwyn trafod materion clinigol a materion rheoli.

Rhoddodd rheolwr y practis fanylion inni o raglen gynefino'r practis. Cadarnhaodd y staff iau y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael eu cefnogi'n dda pan wnaethant ddechrau gweithio yn y practis. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig a oedd yn cadarnhau'r broses a ddisgrifiwyd.

Roedd y practis yn cyflogi rheolwr gwasanaethau cwsmeriaid. Dywedodd wrthym lle bo'n bosibl y bydd yn ceisio datrys cwynion (pryderon) yn y fan a'r lle. Lle nad oedd hyn yn bosibl, bydd yn eu hatgyfeirio at reolwr y practis. Roedd y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat, ac roedd ganddo weithdrefn ar waith i'r cleifion leisio pryderon (cwynion). Roedd angen cynnwys manylion cyswllt Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a diweddarau manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Cytunodd rheolwr y practis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf hon yn y polisi.

Roedd gan y practis weithdrefn chwythu'r chwiban ar waith ar gyfer lleisio pryderon, ac roedd yn cynnwys manylion cyswllt sefydliadau allanol perthnasol. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn teimlo'n hyderus i leisio pryderon sy'n ymwneud â'r gwaith yn uniongyrchol â rheolwr y practis cyn, ac felly o bosibl yn hytrach nag atgyfeirio'u pryderon yn allanol.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roeddem o'r farn bod amgylchedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd wedi'i ddodrefnu a'i addurno i safon uchel iawn.

Roedd yn hawdd mynd i mewn i'r practis ac roedd y mannau aros yn gyfforddus ar gyfer y cleifion sy'n aros i gael eu gweld gan y deintydd neu'r therapydd.

Mae Eastside Dental yn darparu gwasanaethau mewn lleoliad yn SA1 y Glannau ger canol dinas Abertawe. Mae'r practis yn yr adeilad Beacon Centre for Health. Roedd rhai o leodedd parcio penodedig ar gael y tu ôl i'r adeilad. Roedd mwy o leodedd i barcio ar gael mewn maes parcio cyhoeddus gyferbyn â'r adeilad.

Roedd y practis ar lawr cyntaf yr adeilad ac roedd y dderbynfa, y mannau aros cleifion a'r cyfleusterau clinigol wedi'u trefnu ar un llawr. Roedd arwyddion yn arwain at y practis y tu allan ac roedd mwy o arwyddion yn y cyntedd, i gyfeirio'r cleifion at y llawr cywir. Roedd yn hawdd mynd i mewn i'r adeilad trwy fynedfa lydan a oedd yn cynnwys drysau awtomatig. Roedd lifft a oedd yn mynd i bob llawr. Roedd hyn yn gwneud y practis yn hollol hygyrch i'r cleifion, gan gynnwys y cleifion sydd ag anawsterau symudedd a'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos ger mynedfa'r practis, ynghyd â'r rhif cyswllt brys. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion sy'n mynychu'r practis yn ymwybodol o sut i dderbyn triniaeth ddeintyddol mewn argyfwng. Roedd y rhif hwn hefyd wedi'i nodi yn nhaflen y practis, a dywedwyd wrthym ei fod ar gael hefyd ar neges peiriant ateb y practis.

Roedd gan y practis ddau fan aros. Gwnaeth ein harsylwadau nodi bod maint yr ystafelloedd aros yn briodol o ystyried nifer yr ystafelloedd triniaeth, a nifer y cleifion a oedd yn mynychu. Roedd y mannau hyn wedi'u goleuo'n dda, roeddent yn lân, yn dachus ac yn gyfforddus ar gyfer y cleifion sy'n aros cael eu gweld gan y deintyddion neu'r therapydd. Roedd y man aros mwy o faint yn cynnwys seddi o uchder a mathau gwahanol. Roedd hyn yn golygu bod dewis sedd gan y cleifion yn dibynnu pa un sy'n haws iddynt ei defnyddio.

Roedd dau dŷ bach i'r cleifion, ac roedd yn hawdd gweld eu harwyddion. Gwelsom fod y toiledau'n lân a'u bod yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio. Roedd y ddau dŷ bach yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Roeddem o'r farn bod amgylchedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd wedi'i ddodrefnu a'i addurno i safon uchel iawn. Roedd cynllun y practis yn caniatáu i sgysiau a galwadau teleffon cyfrinachol gael eu cynnal yn breifat.

Roedd cyfleusterau ar gael ar gyfer y staff a oedd yn cynnwys ystafell staff a thŷ bach.

Roedd rhagofalon diogelwch ar waith er mwyn atal mynediad heb awdurdod i'r practis a mynediad heb awdurdod ynddo. Gwelsom fod diffoddwyr tân wedi cael eu gwirio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd allanfeydd tân wedi cael eu nodi'n glir yn ogystal â'r weithdrefn i'w dilyn pe bai tân.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, nid oes angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella.